# Mae Angen Nyrsys ar Gymru – Diogelu Addysg Nyrsio

## Cynnig Prifysgol Caerdydd i roi'r gorau i ddarparu addysg nyrsio

Datganiad sefyllfa

## Y cynnig syfrdanol gan Brifysgol Caerdydd

- Mae Prifysgol Caerdydd yn ymgynghori ar ei chynigion i roi'r gorau i ddarparu cyrsiau nyrsio yn y Brifysgol,  a fyddai'n golygu bod pob un o'r 78 o staff academaidd sy'n gweithio yn y brifysgol ar hyn o bryd yn colli eu swyddi presennol.
- O ran effaith y cynigion ar fyfyrwyr presennol, un o'r opsiynau y mae Prifysgol Caerdydd yn ymgynghori arno yw bod myfyrwyr nyrsio yn gorffen eu graddau yn y brifysgol. Opsiwn arall yw trosglwyddo'r myfyrwyr i brifysgolion gwahanol. Y trydydd opsiwn yw bod eu contract presennol ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn cael ei ail-negodi.
- Mae'r brifysgol hefyd wedi nodi y bydd cyrsiau'n mynd rhagddynt ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cael eu recriwtio i raglenni nyrsio ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod (2025/26). Fodd bynnag, mae parhau i recriwtio myfyrwyr tra bod amheuon ynghylch dyfodol ei darpariaeth nyrsio yn codi cwestiynau difrifol am foesoldeb a hyfywedd y ddarpariaeth.
- Agorodd ymgynghoriad Prifysgol Caerdydd ar 29 Ionawr a bydd yn para am 90 diwrnod. Disgwylir i'r cynlluniau terfynol gael eu hystyried i'w cymeradwyo gan Gyngor y brifysgol ym mis Mehefin 2025.

## Mae Angen Nyrsys ar Gymru – Diogelu Addysg Nyrsio

- Daw'r cynnig wrth i Gymru wynebu prinder difrifol o nyrsys, gyda miloedd o swyddi gwag yn gosod pwysau aruthrol ar weithlu sydd eisoes o dan ormod o bwysau.
- Mewn adroddiad diweddar ar ofal mewn coridorau, dangosodd RCN Cymru fod gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn gweithredu â lefelau anniogel o staff. Mae dod â'r ddarpariaeth nyrsio ym Mhrifysgol Caerdydd i ben yn bygwth y cyflenwad o nyrsys cofrestredig i'r byrddau iechyd mwyaf yng Nghymru. Mae'n tanseilio ymdrechion i fynd i'r afael â'r argyfwng staffio pwysig ledled Cymru, yn y GIG ac ym maes gofal cymdeithasol.
- Bydd y cynnig i gau rhaglen nyrsio sefydliad y mae cymaint o feddwl ohono yn cael effaith sylweddol ar ddyfodol nyrsio yng Nghymru. Mae gwefan y brifysgol ei hun yn cydnabod yn gyhoeddus bod ei holl gyrsiau nyrsio yn cael eu hystyried fel y gorau yng Nghymru a'r 5ed gorau yn y DU. Maent yn cynhyrchu nyrsys tosturiol, medrus iawn sydd wedi mynd ymlaen i wasanaethu cymunedau lleol a chymunedau ledled

Cymru. Mae graddedigion o Brifysgol Caerdydd wedi ennill cydnabyddiaeth fel Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru, ac mae'r brifysgol yn cynnal rôl Cadeirydd Ymchwil Nyrsio RCN.

- Byddai cau'r rhaglenni hyn yn siom ac yn golled enfawr i'r proffesiwn, i gymunedau lleol ac i Gymru.

## Beth ddylai Llywodraeth Cymru ei wneud?

- Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r nifer sydd wedi gwneud cais i ddilyn gradd nyrsio wedi lleihau'n sylweddol, gan beri problem i Sefydliadau Addysg Uwch. Mae'r penderfyniad hwn gan Brifysgol Caerdydd yn cael ei wneud ar adeg lle nad oes unrhyw gynllun penodol gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn addysg nyrsio yn ôl yr angen.
- Nid yw model presennol Llywodraeth Cymru, sef bwrsariaeth y GIG sydd ar gael yng Nghymru, yn rhoi digon o gefnogaeth i fyfyrwyr nyrsio y mae'n rhaid iddynt gwblhau mwy o oriau clinigol na phroffesiynau eraill, gan arwain at galedi ariannol sylweddol. Nid yw ymchwil nyrsio (clinigol a pholisi cyhoeddus) wedi cael digon o gefnogaeth i ddatblygu a ffynnu yng Nghymru gan strategaeth ymchwil Llywodraeth Cymru. Mae angen amgylchedd ymchwil cryf i gynnal a datblygu nyrsio yn y byd academaidd.

### Y system ariannu gyfredol

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol, drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), am gomisiynu contractau addysg nyrsio â sefydliadau addysg uwch (SAUau). Mae Llywodraeth Cymru wedi methu â phennu cyfeiriad strategol clir ar gyfer sefydliadau addysg uwch a dyfodol y proffesiwn nyrsio.

Mae AaGIC yn cynghori Llywodraeth Cymru, mewn Cynllun Addysg a Hyfforddi blynyddol, ar nifer y lleoedd nyrsio sydd eu hangen, cyn ac ar ôl cofrestru, i fodloni'r galw nawr ac yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer y cynllun ac mae AaGIC yn comisiynu nifer y lleoedd ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn talu'r ffioedd dysgu ar gyfer graddau nyrsio yn uniongyrchol i SAUau ac yn rhoi bwrsariaeth bach i fyfyrwyr i gefnogi eu hastudiaethau.

Mae RCN Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- gynnal cyrsiau nyrsio ym Mhrifysgol Caerdydd
- parhau i gomisiynu addysg nyrsio cyn ac ar ôl cofrestru er mwyn sicrhau bod digon o nyrsys i ddarparu gwasanaethau clinigol rhagorol i bobl Cymru
- sicrhau bod digon o gymorth ariannol i fyfyrwyr nyrsio sy'n astudio yng Nghymru fel bod nyrsio yn radd ac yn yrfa ddeniadol i bawb
- cefnogi presenoldeb addysg nyrsio cynaliadwy yn y sector addysg uwch yng Nghymru er mwyn darparu ymchwil glinigol ac addysg nyrsio cyn ac ar ôl cofrestru.